OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 Rhif 3443 (Cy.278)

# PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud - -* | *16 Hydref 2001* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Tachwedd 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 9(2) a (3) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**1**) ac adran 23(2) o Ddeddf Plant 1989(**2**) ac sydd bellach wedi'u breinio yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**3**):

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Plant (Eu Hamddiffyn rhag Tramgwyddwyr) (Diwygio) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 1 Tachwedd 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i Gymru.

### Diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 a Rheoliadau Lleoliadau Maeth (Plant) 1991

**2.**—(1) Diwygir Atodlen 2 (diffiniad o gollfarn benodedig) o Reoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983(**4**)) ac Atodlen 4 (diffiniad o gollfarn benodedig) o Reoliadau Lleoliadau Maeth (Plant) 1991(**5**) yn unol â darpariaethau canlynol y rheoliad hwn.

(2) Ym mharagraff 2 o'r ddwy Atodlen ar ôl is-baragraff (a) mewnosodwch —

"(aa) in a case where the offender was under 18 at the time the offence was committed, an offence contrary to section 47 of the Offences Against the Person Act 1861(**6**) (assault occasioning actual bodily harm); or".

(**1**) 1976 p. 36.
(**2**) 1989 p. 41.
(**3**) Cafodd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â'r pwerau uchod eu trosglwyddo, mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**4**) O.S. 1983/1964, a addaswyd gan O.S. 1996/971 ac a ddiwygiwyd gan O.S. 1997/649, O.S. 1997/2308 ac, mewn perthynas â Lloegr yn unig, O.S. 1999/2768.
(**5**) O.S. 1991/910, a ddiwygiwyd gan O.S. 1995/2015, O.S. 1997/2308 ac, mewn perthynas â Lloegr yn unig, O.S. 1999/2768.
(**6**) 1861 p. 100.

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

(3) Ym mharagraff 9 o'r ddwy Atodlen hepgorwch "other than", a mewnosodwch -

"except for —

(a) in a case where the offender was under 18 at the time the offence was committed, an offence of assault; or".

(b)

(4) Ym mharagraff 13 o'r ddwy Atodlen —

(a) ar ôl is-baragraff (a) mewnosodwch yr is-baragraff canlynol —

"(aa) in a case where the offender was under 18 at the time the offence was committed, an offence contrary to section 47 of the Offences Against the Person Act 1861 (assault occasioning actual bodily harm); or"; ac

(b) yn is-baragraff (b) hepgorwch "other than" a rhoddwch "1885" yn lle "1985".

(5) Hepgorir paragraff 14.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**7**).

*D. Elis-Thomas*
Llywydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru

16 Hydref 2001

(**7**) 1998 p. 38.

---

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Asiantaethau Mabwysiadu 1983 a Rheoliadau Lleoliadau Maeth (Plant) 1991 mewn perthynas â Chymru.

Prif effaith y diwygiadau yw y caniateir i awdurdodau lleol ac eraill arfer eu disgresiwn, wrth ystyried pa mor addas yw person i fabwysiadu neu i faethu plentyn, os yw'r person wedi ei gollfarnu neu wedi'i rybuddio am dramgwydd o ymosodiad sy'n peri gwir niwed corfforol ('ymosod' yn yr Alban) a gyflawnwyd pan oedd o dan 18 oed. Cyn y diwygio, yr oedd collfarn neu rybudd o'r fath yn atal awdurdodau lleol ac eraill rhag ystyried y person ar gyfer mabwysiadu neu faethu.